# Ysgol y Traeth

**Prosbectws 2024-2025 Prospectus**

## Cynnwys/ Contents


Croeso/ *Welcome* 3

Manylion Ysgol 4

*School Details* 5

Cwriwclwm Ysgol/ *School Curriculum* 6
Yr Ysgol/ *The School* 7
Ethos a Gwerthoedd/ *Ethos & Values* 8
Ein Gweledigaeth/ *Our Vision* 9
Oriau Dysgu/ *Teaching Hours* 10
Clwb gofal a Chlwb brecwast/ *Breakfast Club* 11
Athrawon a Staff/ *Teachers and Staff* 12
Polisi Derbyn/ *Admissions* 13
Amddiffyn a Diogelu Disgyblion/
*Child Protection & Safeguarding* 14
Cyd-addoli a Cyd-fyfyrio/ *Collective Worship & Thinking* 15
Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb/
*Relationships & Sexuality Education* 16
Trefniadau bugeiliol/ Gwaith Cartref/ Trosglwyddo
*Pastoral Arrangements/ Homework/ Transition* 17
Polisi Cwynion/ Gweithdrefnau Tywydd Drwg
*Complaints Policy/ Bad Weather Procedure* 18
Dyddiadau'r Tymor/ *Term Dates* 19
Presenoldeb ac Absenoldeb/ *Attendance & Absence* 20

Cyfleoedd Cyfartal/ *Equal Opportunity* 21
Anghenion Dysgu Ychwanegol/ *Additional Learning Needs* 22
Ymddygiad 23
*Behaviour* 24
Gwasanaeth Cynhaliol yr Awdurdod
*The LEA's Support Service* 25
Cyfathrebu rhwng y cartref a'r ysgol
*Communication between home and school* 26
Gwisg Ysgol 27
School Uniform 28
Cinio Ysgol 29
*School Dinners* 30
Ysgolion Iach/ *Healthy Schools* 31
Teithio i'r ysgol/ Byw'n Iach 32
*Travelling to school/ Healthy Living* 32
Iechyd a Diogelwch/ Damweiniau & Meddyginiaeth 33
*Health and Safety/ Accidents & Medication* 34
Paratoi ar gyfer yr ysgol 35
*Preparing for school* 36
Sut gallaf helpu fy mhlentyn 37
*How can I help my child* 38
Codi Tal am weithgareddau/ Cyfeillion Ysgol y Traeth 39
Gwersi Offerynnol/ Instrumental Lessons 40






## Croeso

Mae'n bleser gennym gael cyflwyno'r llawlyfr ar gyfer 2024- 25 i rieni disgyblion sy'n mynychu neu'n ystyried mynychu Ysgol y Traeth. Mae awyrgylch hapus a gweithgar yn yr ysgol lle mae pawb yn cael eu trin fel unigolon ac yn cael eu hadnabod a'u gwerthfawrogi gan bawb arall yn yr ysgol.

Yma yn Y Traeth, ein gweledigaeth yw sicrhau fod pawb yn gwneud eu gorau glas i fod yn fentrus ac uchelgeisiol. Bydd ein cwricwlwm cynhwysol yn grymuso plant i ddatblygu sgiliau creadigol, a thanio'r chwilfrydedd at ddysgu.

Ymfalchïwn yng Nghymreictod a diwylliant ein hardal leol ac ymrwymwn i ennyn balchder yn yr iaith Gymraeg.

Byddwn yn sicrhau profiadau i feithrin disgyblion iach, hyderus ac annibynnol, a thrwy hyn datblygwn feddylfryd a pherthnasoedd gadarnhaol fydd yn sylfaen gadarn i'r dyfodol.

Gobeithir y bydd y wybodaeth o fewn y llawlyfr yn eich hysbysu am athronaieth a threfniadaeth yr ysgol a hefyd yn hybu cydweithrediad clos a chysylltiad ystyrlon rhwng yr ysgol a'r cartref. Mae'r bartneriaeth yma yn un holl bwysig ac wrth gydweithio gyda'n gilydd gallwn roi cymorth i bob plentyn wneud y gorau o'i allu.

Darllenwch ymlaen am ragor o wybodaeth am yr ysgol, neu cysylltwch i wneud apwyntiad am ymweliad er mwyn i chi gael profi awyrgylch a bwrlwm yr ysgol.

## Welcome

It is a pleasure to introduce the 2024-25 prospectus for current and prospective parents of Ysgol y Traeth. There is a happy and active atmosphere in the school where everyone is treated as individuals and is acknowledged and appreciated by everyone at the school.

Here at Y Traeth, our vision is to ensure that everyone does their very best to be adventurous and ambitious. Our inclusive curriculum will empower children to develop creative skills, and ignite curiosity for learning.

We are proud of Welshness and the culture of our local area and we are committed to instilling pride in the Welsh language.

We will ensure experiences to nurture healthy, confident and independent pupils, and through this, we will develop positive thinking and relationships that will be a solid foundation for the future.

We hope the information in this prospectus will inform you about the school's philosophy and organisation and also encourage close co-operation and meaningful contact between the school and home. This partnership is a vital one and by working together we can support every child to make the most of their ability.

Read on for more information, or contact us to arrange a visit to experience the vibrance of our busy school.

# Ysgol y Traeth

Ysgol y Traeth
Ffordd yr Ysgol
Abermaw
Gwynedd
LL42 1HH

**Rhif ffôn:** 01341 280479

**E-bost:** pennaeth@traeth.ysgoliongwynedd.cymru
**Trydar:** @YsgolyTraeth

**Pennaeth:** Sian Humphreys

**Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Mr Rob Williams

Arddangosir enwau'r staff ar hysbysfwrdd y cyntedd ac ar wefan yr ysgol. Mae cofnodion pwyllgorau'r Llywodraethwyr ar gael yn y swyddfa.

**Math o ysgol:** Ysgol Gynradd Gymraeg Cymunedol 3- 11 oed

**Nifer ar y gofrestr Medi 2023:** 172






# Ysgol y Traeth

Ysgol y Traeth
Ffordd yr Ysgol
Abermaw
Gwynedd
LL42 1HH

**Telephone Number**: 01341 280479

**E-mail**: pennaeth@traeth.ysgoliongwynedd.cymru
**Twitter**: @YsgolyTraeth

**Headteacher**: Sian Humphreys

**Chair of Governors**: Mr Rob Williams

Staff details are displayed in the school's main entrance and on the school's website. Minutes of Governors' meetings are available in the school office.

**Type of school**: Community Welsh Primary School 3- 11 years of age

**Number on roll September 2022**: 172

## Cwricwlwm yr ysgol

Cwricwlwm ydy popeth y mae dysgwyr yn ei brofi yn yr ysgol. Mae ein cwricwlwm yn ffordd gydlynus o feddwl er mwyn gwireddu ein gweledigaeth i sicrhau bod ein dysgwyr yn ddinasyddion uchelgeisiol, mentrus, egwyddorol ac iach. Mae ein cwricwlwm yn eang, yn gytbwys ac yn addas ar gyfer dysgwyr o wahanol oedrannau a galluoedd. Mae'n darparu ar gyfer cynnydd priodol i ddysgwyr ac mae'n cynnwys ystod o ddarpariaeth i sicrhau hyn.

Wrth ddylunio cwricwlwm Ysgol y Traeth mae anghenion ein dysgwyr yn flaenllaw yn ein meddyliau. Rydym yn rhoi ystyriaeth fanwl i Beth rydyn ni'n ei addysgu, Sut rydyn ni'n ei addysgu a hefyd Pam rydyn ni'n ei addysgu gan roi bri ar brofiadau eang a chyfoethog.

## The School Curriculum

Curriculum is everything that learners experience at school. Our curriculum is a coherent way of thinking in order to realize our vision to ensure that our learners are ambitious, enterprising, principled and healthy citizens. Our curriculum is broad, balanced and suitable for learners of different ages and abilities. It provides for appropriate progress for learners and includes a range of provision to ensure this.

Whilst planning Ysgol y Traeth's curriculum, the needs of every pupil lead our thoughts and ideas. We give great consideration to What we are teaching, How we teach it and also Why we teach it giving great consideration to providing a variety of rich and varied experiences.

# Yr Ysgol

Lleolir Ysgol y Traeth yn dref Abermaw ac fe'i cynhelir gan Awdurdod Lleol Gwynedd.

Mae 8 ystafell ddosbarth yn ogystal ag ardaloedd pwrpasol ar gyfer gweithgareddau creadigol, digidol a lles. Rydym yn ffodus fod gennym neuadd gyda darpariaeth da ar gyfer ymarfer corff. Mae gennym ni cantîn ar gyfer darpariaeth bwyd gan gynnwys ein clwb brecwast dyddiol. Mae'r Dosbarth Meithrin ar safle'r ysgol. Mae gan yr ysgol faes chwarae eang, parc antur, cae chwarae, cwrt chwaraeon aml bwrpas a gardd ysgol. Defnyddir yr amgylchfyd diddorol hwn yn gyson yng nghwricwlwm yr ysgol.







# The School

Ysgol y Traeth is located in the town of Barmouth and is maintained by Gwynedd Local Authority.

There are 8 classrooms as well as purpose developed learning areas for creative, digital, health and well-being activities. We are fortunate that we have a school hall with excellent facilities for physical education lessons. We have a canteen for all our dining purposes including our daily breakfast club. The Nursery class is located on the school site.The school has an extensive playground, adventure park, playing field, multi purpose sports court and a school garden, all of which are regularly used in the school curriculum and for extra-curricular experiences.

## Ethos a Gwerthoedd

**Parch ac Ymddiriedaeth**
Mae pawb yn yr ysgol yn unigryw- yn ddysgwyr a theuluoedd, yn staff a rhan ddeiliaid. Rydym yn onest ac agored wrth ein gwaith a pharchwn farn a theimladau pawb.

**Lles a Gofal**
Rydym yn dangos empathi, gofal a chonsyrn am les pawb. Rydym yn gwrando ac yn gweithredu i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn teimlo'n ddiogel a bod gan bawb lais sy'n cael ei glywed.

**Hapusrwydd a Mwynhad**
Mae ethos pob dosbarth a phrofiadau dysgu yn ysbrydoli ein dysgwyr. Rydym yn sicrhau bod dysgwyr yn mwynhau profiadau a datblygu cymhelliant wrth ddysgu.

**Gwytnwch a Hyder**
Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol yn ddysgwyr a staff i fod yn hyderus a balch o'n hunain,i groesawu her ac i ddyfalbarhau i gyrraedd ein nod.

**Cymru a Chymreictod**
Rydym yn dathlu iaith a diwylliant Cymru ymhob rhan o'n gwaith.

**Cymuned a Chynefin**
Rydym yn chwarae rhan llawn ym mwydy ein cymuned ac mae'r gymuned yn chwarae rhan llawn ym mywyd yr ysgol. Rydym yn dathu a gwarchod ein cynefin.

**Mentro ac Arloesi**
Rydym yn cefnogi ein gilydd yn yr ysgol, yn ddysgwyr a staff, i fentro'n hyderus, i feddwl yn greadigol a thorri tir newydd ac i ddysgu o'n llwyddiannau a'n methiannau.

**Cefnogi a Chydweithio**
O fewn ein dosbarthiadau, ein hysgol ac ar draws ein clwstwr o ysgolion, rydym yn cydweithio ac yn cefnogi ein gilydd i ddatblygu a dysgu'n barhaus.

## Ethos and Values

### Respect and Trust
Everyone in the school is unique- learners and families, staff and stakeholders. We are honest and open in our work and respect everyone's opinions and feelings.

### Welfare and Care
We show empathy, care and concern for everyone's welfare. We listen and act to ensure that everyone in the school feels safe and that everyone has a voice that is heard.

### Happiness and Enjoyment
The ethos of each class and learning experiences inspires our learners. We ensure that learners enjoy experiences and develop motivation when learning.

### Resilience and Confidence
We support each other as learners and staff to be confident and proud of ourselves, to welcome a challenge and to persevere to reach our goal.

### Wales and Welshness
We celebrate our Welsh language and our culture in every part of our work.

### Community and Habitat
We play a full part in the life of our community and the community plays a full part in the life of the school. We celebrate and protect our habitat.

### Venture and Innovation
We support each other in the school, learners and staff, to take risks with confidence, to think creatively and break new ground and to learn from our successes and failures.

### Support and Collaboration
Within our classes, our school and across our cluster of schools, we collaborate and support each other to develop and learn continuously.

## Ein Gweledigaeth

Yn Ysgol y Traeth, rydym yn angerddol dros ddatblygu, cefnogi a chynnal ein dysgwyr i lwyddo hyd eithaf eu gallu beth bynnag fo eu dyheadau a'u cryfderau a hynny mewn amgylchfyd diogel sy'n parchu pawb.

Ein gobaith yw y bydd pob dysgwr yma'n ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau y byddant eu hangen ar gyfer cam nesaf ey bywyd a'u haddysg. Gwnawn bopeth o fewn ein gallu i sicrhau y byddant yn ein gadael yn unigolion hapus, balch, hyderus, iach ac annibynnol sydd wedi mwynhau eu profiadau dysgu a'u profiad o ddysgu yma.

Mae llais a lles pob unigolyn yn holl bwysig yma ac yn rhan flaenllaw o ethos unigryw yr ysgol. Datblygwn y sgiliau sydd eu hargen ar bob dysgwr i allu gofalu amdanynt eu hunain, i gadw'n saff, i wynebu a goresgyn heriau bywyd, ac i fwynhau dysgu.

Mae ardal Y Bermo yn ardal sy'n llawn hanes ac rydym am ddathlu hynny ym mhob rhan o'n gwaith. Yn ogystal â gwreiddio ymdeimlad o berthyn mewn diwylliant, hanes ac hunaniaith Gymreig gan fagu balchder ac agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Rydym am ehangu gorwelion pob dysgwr i allu gwerthfawrogi amrywiaeth a rhyfeddod y byd a'u lle nhw fel unigolion ynddo.

## Our Vision

Here in Ysgol y Traeth, we are passionate about developing, supporting and upholding our pupils so that they succeed to the best of their abilities whatever their aspirations and strengths. We endeavour to create a safe and happy environment for each and every one of our pupils.

Our hope is that each and every pupil develops the skills and knowledge they require for their next steps in life and in education. We will endeavour to ensure that our pupils leave Ysgol y Traeth as happy, proud, confident, healthy and independent individuals who have enjoyed their learning experiences and experience of learning.

Our pupils voice and wellbeing is of great importance to us and plays a significant part in the ethos of our school. We will develop the skills each pupil requires to be able to take care of themselves, to keep safe, to face and overcome problems and to enjoy learning.

Barmouth and its surrounding area is steeped in history and we want to celebrate this in every aspect of our work through embedding a sense of belonging in to our rich Welsh culture, history and language while building pride and positive attitudes towards our community and beyond. We will broaden our pupils horizons to be able to appreciate variety and the wonders of the world and their place in it.

## Oriau Dysgu

Mae'r oriau dysgu yn 24 awr yr wythnos i'r disgyblion llawn amser a 10 awr i'r disgyblion Meithrin.

Sesiynau y bore

08:55 - 11:45 Bl0-2
08:55 - 12:00 Bl3-6

Sesiwn y prynhawn

12:45 – 15:00 Bl0-2
12:45 - 15:15 Bl 3-6

Ni ddylai disgyblion gyrraedd yr ysgol cyn 8:50am, onibai eu bod yn mynychu'r Clwb Gofal neu'r Clwb Brecwast. Dylai'r disgyblion gyrraedd yr ysgol yn brydlon. Byddant yn cael eu cofnodi fel "hwyr" os byddant yn cyrraedd ar ôl 9.00 a.m, a bydd y gwersi eisioes wedi cychwyn. Nid oes hawl gan ddisgybl i adael tir yr ysgol heb ganiatâd a heb i oedolyn ei gyrchu. Unwaith mae disgybl wedi ei drosglwyddo i riant/warchodwr, mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn trosglwyddo i'r person sydd wedi dod i'w nôl. Yn swyddogol, bydd yr athrawon yn gyfrifol am bob disgybl 10 munud cyn dechrau a 10 munud wedi oriau'r ysgol.

## Teaching Hours

Teaching hours are 24 hours per week for full-time pupils, and 10 hours for Nursery children.

Morning sessions

08:00 - 11.45 Year 0-2
08.55 - 12:00 Year 3- 6

Afternoon sessions

12:45 – 15:00 Yr 0-2
12:45-15:10 Yr 3-6

We wish to remind you that children should not arrive at school before 08:50 unless they are attending the Breakfast Club. The children should arrive at school punctually. They will be registered as 'late' if they arrive after 09:00 and they will miss the start of the lessons. Children are not allowed to leave school grounds without permission and without an accompanying adult. Once a child is handed over to a parent/guardian, the responsibility for the child transfers to that person. The teachers are officially responsible for every child 10 minutes before and 10 minutes after school hours.

## Clwb Gofal a chlwb brecwast

Mae cyfle i bob disgybl yn yr ysgol fod yn rhan o’n Clwb Gofal a’n Clwb Brecwast, sydd yn cael ei gynnal yn neuadd yr ysgol.

Mae’r ddarparaieth hon ar gael bob diwrnod ysgol a rhaid cofrestru a thalu ymlaen llaw ar School Gateway.

08:00–08:30 i’r Clwb Gofal (£1.00 y dydd), i’w dalu ymlaen llaw ar School Gateway.
08:30-08:50 i’r Clwb Brecwast (am ddim) i gael sudd ffrwythau, grawnfwyd a thôst i frecwast.





## Breakfast club and care club

Every child at the school can be part of our Care Club or Breakfast Club which are held daily in the school hall.

Care Club: 08.00- 08.30 (£1.00 per day), to be paid in advance through School Gateway

Breakfast Club—08:30-8:50 a.m. (free) for fruit juice, cereal and toast. If you wish your child to be part of this club, registration and payment must be made beforehand on School Gateway.

## Athrawon a Staff

Ymdrechwn i ddarparu perthnasau cadarnhaol gyda phob disgybl a gweithiwn yn galed i ddatblygu dulliau addysgiadol pwrpasol i bob unigolyn. Mae Ysgol y Traeth yn ymfalchïo yn ei systemau tracio a monitro, gan adnabod anghenion unigol y disgybl a darparu cefnogaeth. Mae'r ysgol yn ffodus o gael athrawon a staff cynorthwyol profiadol sy'n cynnig rhaglenni ar gyfer disgyblion gydag anghenion ychwanegol a hefyd i'n disgyblion mwy abl a thalentog. Bydd ein hathrawon a staff yn ymdrechu i ddatblygu perthynas agos gyda rheini, gyda pholisi drws agored yn annog cyfathrebu da.









## Teachers and Staff

We strive to provide a positive relationship with each and every pupil and work hard to develop a bespoke educational approach to each individual. Ysgol y Traeth prides itself in its tracking and monitoring systems, recognising pupils' individual needs and allocating support. The school is fortunate in having experienced teachers and support staff who can offer programmes for pupils with additional learning needs and for our more able and talented pupils. Our teachers and staff will endeavour to develop a close relationship with parents, with an open door policy encouraging good communication.

# Polisi Derbyn

Mae mynediad plant a phobl ifanc i'r ysgol yn cael ei reoli a'i weinyddu gan yr Awdurdod. Gellir dod o hyd i bolisi derbyn Awdurdod Addysg Gwynedd ar eu gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru

## Y broses o gynnig lle mewn ysgol

- Mae Cyngor Gwynedd yn cynnig mynediad sengl ym mis Medi bob blwyddyn.
- Rydym yn cynnig llefydd i blant yn ein dosbarth Meithrin yn dilyn eu penblwydd yn 3 oed.
- Mae croeso i ddarpar rieni gysylltu â'r Pennaeth i drefnu taith o amgylch yr ysgol.
- Nid yw mynegi blaenoriaeth i ysgol ddewisedig yn gwarantu lle.
- Nid yw mynychu dosbarth Meithrin yn gwarantu lle yn nosbarth Derbyn yn yr un ysgol.
- Os yw ysgol yn derbyn gormod o geisiadau- hyd yn oed os yw'r ceisiadau wedi eu derbyn ar amser- bydd rhaid i ni restru'r rhain yn unol â meini prawf gorlenwi Cyngor Gwynedd a fynegwyd yn y polisi derbyn.

## Cytundeb Cartref Ysgol

Mae gan yr ysgol 'Gytundeb Cartref/ Ysgol' sy'n nodi'r hyn a ddisgwyliwn yn nhermau ymrwymiad rieni a disgyblion wrth gefnogi'r ysgol, ynghyd ag ymrwymiad yr ysgol i ddarparu'r gwasanaeth orau i rieni/ gwarcheidwad a disgyblion.

# Admissions

The entry for children and young people into schools is controlled and administered by the Local Authority. Gwynedd Education Authority admission policy can be found on their website: www.gwynedd.llyw.cymru

## The process for offering school places

- Gwynedd offers a single entry in September each year.
- We offer places for children in our part time Nursery class in the September following their 3rd birthday.
- Parents are invited to visit the school to meet staff and ask questions they might have.
- Expressing a preference at a chosen school does not guarantee a place.
- Attending a Nursery class does not guarantee a place in the Reception class at the same school.
- If a school is oversubscribed- even with applications made on time, Gwynedd Council will rank them according to their oversubscription criteria stated in the admission policy.

## Home School Agreement

The school has a 'Home/ School Agreement' which notes what we expect in terms of parents/ guardians and pupil engagement to support the school, as well as the school's commitment to providing the best service for parents/ guardians and pupils.

## Amddiffyn a Diogelu Disgyblion

Fel rhan o'n gweithdrefnau Amddiffyn Disgyblion, mae gan holl staff yr ysgol gyfrifoldeb i adnabod arwyddion o gamdriniaeth neu esgeulustod posibl, a chyfeirio eu pryderon ymlaen. Dylid cysylltu hefo'r Pennaeth os oes unrhyw bryder, neu gyda person cyswllt os oes honiadau Amddiffyn Disgyblion yn gysylltiedig â'r Pennaeth.

Y person dynodedig Amddiffyn Disgyblion yn yr ysgol hon yw Sian Humphreys. Y dirprwy berson dynodedig yw Jemma Stevens.

Personau cyswllt eraill yw:

Catrin Edwards
(Llywodraethwr Dynodedig)
Bethan Helen Jones
(Swyddog Diogelu Disgyblion Cyngor Gwynedd)
Gwasanaethau Cymdeithasol

## Child Protection and Safeguarding

As part of the child protection procedure, every staff member has a responsibility to recognize signs of possible mistreatment or neglect, and refer their concerns on to the named responsible contacts. Contact should be made with the head if there is any concern. If the child protection allegations are related to the head, one of the other designated persons should be contacted.

The responsible person for child protection this school is Sian Humphreys. The deputy responsible person is Jemma Stevens.

Other contacts are:

Catrin Edwards
(Designated Governor)
Bethan Helen Jones
(Gwynedd Council Safeguarding Children's Officer)
Social Services

## CYD-ADDOLI/ CYD-FYFYRIO

Mae Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg yn un o ofynion statudol Cwricwlwm i Gymru ac yn fandadol i bob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Yn unol â'r gofynion statudol, mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithred ddyddiol o fyfyrio a diolch. Mae gwasanaethau ysgol gyfan a gwersi Addysg Grefyddol yn agwedd bwysig ethos Ysgol y Traeth. Mae'r agwedd grefyddol wedi ei gysylltu â phrofiadau'r plant yn eu bywydau bob dydd, gan bwysleisio ar agweddau allgarol a gofalgar crefydd. Mae'r gwasanaethau eraill sy'n cael eu cynnal yn y dosbarth hefyd yn agweddau pwysig er mwyn datblygu'r teimlad o gymuned. Addysgir plant am wahanol grefyddau gyda phwyslais ar Gristnogaeth. Nid yw'r ysgol hon yn dal cysylltiad ffurfiol ag unrhyw enwad crefyddol. O bryd i'w gilydd, bydd yr athrawon yn arwain neu bydd ymwelwyr yn dod megis ein Ficer lleol. Nid oes gan rieni hawl i ofyn am gael tynnu eu plentyn yn ôl o addysg Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae copi o'r Polisi Cyd-fyfyrio ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.

## COLLECTIVE WORSHIP/ COLLECTIVE REFLECTING

Religion, Values and Ethics (RVE) is a statutory requirement of the Curriculum for Wales and is mandatory for all learners from ages 3 to 16. In accordance with statutory requirements, pupils take part in a daily act of reflecting and thanking. The whole school assemblies and RE lessons are an important part of Ysgol y Traeth's ethos. The religious aspect is linked to the children's own experiences in their everyday lives, emphasising religion's altruistic and caring aspects. The separate services held in the classroom are also an important part of developing a feeling of community. The children are taught about different religions with the emphasis on Christianity.  This school is not directly or formally connected to any religious affiliation. The assemblies will be led by teachers or by visitors such as our local Vicar. There is no parental right to request that a child is withdrawn from RVE in the Curriculum for Wales. A copy of the school's policy is available on the school website.

## Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb

Mae pwnc Addysg Rhyw yn cael ei addysgu gyda sensitifrwydd. Nid yw'n bwnc ar wahân ond wedi'i integreiddio i'n ddarpariaeth addysg iechyd a lles. Mae'n galw am fod yn agored yn yr ystafell ddosbarth ac atebion gonest i gwestiynau wrth iddynt godi o wersi unigol yn hytrach na gwersi unigol sy'n cael eu neilltuo i'r pwnc gyda'r dosbarth cyfan. Dylai pwysigrwydd bywyd teuluol a pherthnasau cariadus a gofalgar yn y cyd-destun hwnnw fod yn nodwedd ganolog o'r agwedd hon ar y Cwricwlwm. Os oes unrhyw riant yn pryderu am yr agwedd hon ar y cwricwlwm, yna mae croeso i chi ei drafod gyda'r Pennaeth.





## Relationships and sexuality education

The subject of Sex Education is taught with sensitivity. It is not a separate subject but is integrated into our health and well-being education provision. It calls for openness in the classroom and honest replies to questions as they arise from individual rather than isolated lessons devoted to the subject with the whole class. The importance of a family life and loving and caring relationships within that context should be a central feature of this aspect of the Curriculum. If any parent is concerned about this aspect of the curriculum then please feel free to discuss it with the Headteacher.

## Trefniadau Bugeiliol

Mae'r cyfrifoldeb am ofal plant yn disgyn ar yr holl staff ond mae pob plentyn yn cael eu gosod yng ngofal penodol athro dosbarth. Wrth annog hunanddisgyblaeth a hunanbarch gobeithiwn y bydd pob plentyn yn dod yn aelod gwerthfawr o'r gymuned ac edrychwn am gymorth rhieni yn y mater hwn.

## Gwaith Cartref

Credwn yn gryf mewn gwerth o osod gwaith cartref yn yr ysgol. Pwrpas gosod tasgau gwaith cartref yw ehangu astudiaethau dosbarth presennol. Mae hyn yn galluogi rhieni i ddod yn rhan o waith ysgol eu plentyn ac i atgyfnerthu perthynas cartref/ysgol ymhellach. Disgwylir i blant gwblhau'r tasgau wedi eu cyflwyno'n dda ac i gyflwyno eu gwaith erbyn yr amser dynodedig.

## Trosglwyddo

Mae cydweithio rhwng yr Ysgol â Chylch Meithrin Y Tonnau yn hwyluso'r pontio rhwng y ddau leoliad. Mae Ysgol y Traeth yn ysgol fwydo uniongyrchol i Ysgol Ardudwy.

## Pastoral Arrangements

Care of the children is the responsibility of all the staff but each child is placed in the specific care of a class teacher. By encouraging self discipline and self esteem we hope that each child will become a worthy member of the community and we look for parental support in this matter.

## Homework

We firmly believe in the value of setting homework at the school. The purpose of setting homework tasks is to enhance current classroom studies. This enables parents to become involved in their child's school work and to further reinforce the school/home relationship. Pupils are expected to complete their tasks in a well presented manner and to hand in their work by the appointed time.

## Transition

There is collaboration between Ysgol y Traeth and Cylch Meithrin Y Tonnau, which helps with a smooth transition between the two locations. Ysgol y Traeth is a direct feeder school to Ysgol Ardudwy, Harlech.

## Polisi Cwynion

Petaech yn anhapus am unrhyw agwedd o addysg gwricwlaidd neu fugeiliol eich plentyn cysylltwch â'r Pennaeth. Gellir delio gyda mwyafrif o broblemau yn yr ysgol. Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion Adran 29 o Ddeddf Diwygio Addysg 2002, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae'r ysgol, Corff Llywodraethu a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn. Mae'r Llywodraethwyr yn mabwysiadu'r weithdrefn hon, dyma'r un a argymhellir gan yr Awdurdod Addysg Lleol ar gyfer ymdrin â chwynion: Os oes gan riant broblem mewn perthynas ag addysg plentyn, dylid gwneud apwyntiad i weld yr athro dosbarth ar y cyfle cyntaf drwy gysylltu â'r penaneth. Gellir ymdrin â'r rhan fwyaf o broblemau yn anffurfiol gan yr athro dan sylw. Os teimla rhiant nad yw'r broblem wedi ei datrys, neu fod pryderon am fater arall, dylid gwneud apwyntiad i weld y pennaeth. Os parheir anfodlon, gellir gwneud cwyn ffurfiol i Gadeirydd y Llywodraethwyr.

## Complaints Policy

If you are unhappy about any aspect of your child's education, curricular or pastoral care please contact the Head Teacher. Most problems can be dealt with in school. Formal complaints policy and procedures is available from the school office.The Local Education Authority, in accordance with the requirements of Section 29 of the Education Reform Act 2002, has established a procedure to consider complaints concerning the way the school, Governing Body and the Education Authority act in relation to the school's curriculum and other related matters. It is outlined in an appropriate document, in Welsh and in English, which is available at the school, and is provided, on request, to any parents wishing to lodge a complaint under these arrangements. If you have a problem in relation to your child's education, please make an appointment to see the class teacher at the first opportunity, since most problems can be dealt with informally by the teacher concerned. If you feel that your problem has not been resolved, or have concerns about another matter, please make an appointment to see the Head teacher. Should you remain dissatisfied, a formal complaint can be submitted to the chair of governors.

## Gweithdrefnau Tywydd Drwg

Gwneir pob ymdrech i gadw'r ysgol yn agored. Defnyddir gwefan yr ysgol a gwasanaeth neges destun yr ysgol er mwyn hysbysu rhieni o unrhyw achosion o gau'r ysgol. Yn achlysurol, bydd angen anfon y plant adref yn gynnar ond bydd yr ysgol yn ffonio cartref y plentyn yn gyntaf.

## Bad Weather Procedures

Every attempt is made to keep the school open. The school website and text messaging service will be used to inform parents of any closures. Occasionally, children will have to be sent home early but the school will phone the child's home first.

# Dyddiadau'r Tymor

**Hydref 2024**

Medi 2- Hydref 25
Tachwedd 4- Rhagfyr 20

**Gwanwyn 2025**

Ionawr 6- Chwefror 21
Mawrth 3- Ebrill 11

**Haf 2025**

Ebrill 26- Mai 23
Mehefin 2- Gorffennaf 21

## Term Dates

**Autumn 2024**

September 2- October 25
November 4- December 20

**Spring 2025**

January 6- February 21
March 3- April 11

**Summer 2025**

April 26- May 23
June 2- July 21



## PRESENOLDEB AC ABSENOLDEB

Mae gofyn statudol i ysgolion gadw cofnod manwl o bresenoldeb disgyblion a phob absenoldeb a gwnawn hyn drwy system Sims. Dylid cysylltu â ni cyn 9.00 a.m. (trwy ebost neu alwad ffôn) os na fydd disgybl yn dod i'r ysgol. Mae hyn y hollbwysig o ran sicrhau diogelwch pob disgybl sydd yn yn ein gofal, ac i ni fod yn gwybod pam fod disgybl yn absennol. Os nad yw disgybl yn bresennol ar gyfer sesiwn, cânt eu marcio'n absennol. Yn unol â gofynion y Llywodraeth mae'n rhaid i bob ysgol ddosbarthu absenoldebau mewn un o ddwy ffordd:  absenoldebau awdurdodedig—hefo rheswn dilys, yn cynnwys salwch neu apwyntiadau meddygol.  Absenoldebau anawdurdodedig-heb eu hesbonio neu heb reswm dilys Mae gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgol yn cael ei chadw'n electronig gan yr AALl ac y cael eu monitro. Gall Swyddogion Lles Addysg ymweld â chartrefi unrhyw rieni yr ystyrir bod ffigurau presenoldeb eu disgybl yn bryder i'r Ysgol a'r AALl. Mae'n bosibl caniatâu hyd at ddeg diwrnod ysgol y flwyddyn i wyliau teuluol , er fod hyn, wrth gwrs yn amharu ar addysg disgybl. Rhaid gwneud cais ysgrifenedig i'r Llywodraethwyr am hyn, drwy gyflwyno ffurflen gais berthnasol i'r pennaeth o leiaf mis cyn y gwyliau.

Targed presenoldeb y llywodraethwyr yw 95.0%

## ATTENDANCE AND ABSENCE

The school has a statutory duty to keep a detailed record for every pupil's absence and we use the Sims system to do so. Parents/Guardians should contact us before 9.00 a.m. (by phone or e-mail) if their child is not coming to school, to ensure the safety of all children in our care, and so that we are aware of the reason for the child's absence. If a child is not present for a session, he/she will be marked as absent. In accordance with Government's requirements, every school must classify absences in one of two ways: Authorised Absences- a reasonable reason, which usually include illness or medical appointments.  Unauthorised Absences – any unexplained absences Information about the school's attendance is recorded electronically by the LEA. Education Welfare Officers may visit the homes of any parents whose child's attendance figures are of concern to the school and LEA. It is possible to ask the Governors for up to ten school days per year for family holidays if truly necessary, although this will disrupt your child's education. This application must be made in writing to the Governors through the head teacher.

Our attendance target, set by the governors is 95.0%

## Cyfleoedd Cyfartal

Dymunwn annog a datblygu agweddau cadarnhaol yn y disgyblion, staff, llywodraethwyr a'r rhieni er mwyn i pob disgybl gyflawni eu llawn botensial a gwneud dewisiadau, heb eu llesteirio gan ddisgwyliadau seiliedig ar ryw neu bersonoliaeth. Ceisiwn gyflawni amcanion yr ysgol gyda phob disgybl, o bob oed, rhyw, gallu, tarddiad ethnig, anabledd neu gefndir y disgybl. Mae'r ysgol yn dilyn Polisiau Cynhwysiad yr AALl, sydd ddim yn caniatâu i ryw, hîl, lliw nac anabledd gael eu defnyddio yn feini prawf ar gyfer mynediad. Rydym yn ymwybodol o'n cyfrifoldeb i wneud addasiadau rhesymol i gynorthwyo cydranddalwyr anabl. Mae'r polisi yn cadarnhau fod yr ysgol yn meithrin agweddau cymdeithasol cadarnhaol, yn sicrhau profiadau eang ac yn annog cyd-weithio hapus ac adeiladol. Mae copi o'r Polisi Cyfle Cyfartal ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.



## Equal Opportunity

We wish to promote positive attitudes among pupils, staff, governors and parents so as to enable pupils to fulfil their potential and make choices, without being hindered by expectations based on gender or personality. We attempt to fulfil the school's objectives, irrespective of the child's age, sex, ability, ethnic origin or background. The school follows the LEA's Inclusion Policies which prohibit using gender, race, colour or disability as admission criteria . We are aware of our responsibility to make reasonable adjustments to help disabled stakeholders. The policy confirms that the school nurtures positive social attitudes, ensures broad experiences and encourages happy and constructive collaboration.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae gan yr ysgol strwythur cefnogi i blant sy'n cael eu cydnabod gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cynnwys plant hynod o abl. Yr ysgol sy'n gyfrifol am leoli disgyblion ar y camau a nodir yng 'Nghod Ymarfer Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru' ac am fonitro, adolygu ac am ddyrannu adnoddau. Mae Cydlynydd Anghenion Dysgu Ychwanegol yr ysgol (CADY) yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i athrawon a rhieni o fewn yr ysgol. Mae cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd adolygu cyson pan fydd rhaglenni dysgu ac ystyriaeth i'r angen am gymorth ychwanegol yn cymryd lle.

## Additional Learning Needs

The school has a support structure for children identified as having Additional Learning Needs, including exceptionally able children. It is the school's responsibility to place children in the stages described in the 'Welsh Additional Learning Needs Code of Practice', and to monitor, review and allocate resources. Our school Additional Learning Needs Coordinator (ALNCo) provides support and guidance to teachers and parents within the school. Progress is monitored through regular review meetings when learning programmes and consideration of the need for additional support takes place.

**Ymddygiad**

Yn Ysgol y Traeth credwn fod safon uchel o ymddygiad ac ethos cadarnhaol yn holl-bwysig ar gyfer cyflwyno addysg o’r ansawdd orau ac ar gyfer rhoi sgiliau bywyd positif i’r disgyblion. Mae cwrteisi, parch, moesgarwch ac ystyriaeth o eraill, ynghyd â hunan-ddisgyblaeth yn agweddau pwysig o addysg disgybl ac nid ydym yn derbyn unrhyw fath o fwlio. Mae copïau o’n Polisi Gwrth-fwlio ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan.  Bydd y Pennaeth a staff yn gwneud popeth sy’n bosib creu bywyd ysgol hapus. Disgwyliwn agwedd gyfrifol ac ymddygiad priodol ac ystyriol gan ein disgyblion. Disgwylir i ddisgyblion ddangos parch tuag at athrawon a staff yr ysgol, cyd ddisgyblion, adeiladau’r ysgol ac offer yr ysgol. Os nad yw disgybl yn ymateb, bydd breintiau’n cael eu tynnu. Bydd problemau disgyblaeth ddifrifol yn cael eu cyfeirio at y Pennaeth, ac mewn sefyllfaoedd eithafol gofynnir i rieni ymweld â’r ysgol am adroddiad llawn. Mae copi o Bolisi Ymddygiad yr Ysgol ar gael gan yr athro dosbarth neu’r Pennaeth. Mae ein hystafelloedd dosbarth yn lleoedd prysur ac atyniadol fel bod y disgyblion yn mwynhau dysgu, yn gweithio’n galed ac yn ymddwyn yn dda. Credwn mewn amddiffyn hawliau dysgu a diogelwch pob un o’r disgyblion. Mae polisi Awdurdod Addysg Gwynedd ar ddisgyblaeth mewn ysgolion yn rheoli'r ffordd y disgyblir plant yn yr ysgol hon. Mae copi o’n Polisi Ymddygiad ar gael yn yr ysgol ac ar ein gwefan. Ymfalchiwn fod yr ysgol yn gymdeithas o unigolion sydd yn gofalu am ei gilydd. Mae polisïau ar gael yn yr ysgol ar gyfer hyrwyddo disgyblaeth dda ac ar gyfer atal bwlio



## Behaviour

At Ysgol y Traeth, we believe that a high standard of behaviour and a positive ethos are essential in order to present an education of the best quality and to provide the children with positive life skills. Courtesy, respect, politeness and a consideration of others, together with self-discipline are important aspects of a child's education. Bullying of any kind will not be tolerated. The policy document is available at the school. The Head Teacher and staff will do everything possible to create a happy school life. We expect a responsible attitude and proper, thoughtful conduct from our pupils. Pupils will be expected to show respect towards school teachers and staff, fellow pupils, school buildings and school equipment. Guidance, rather than punishment, is the school's philosophy. If a pupil does not respond, privileges may be taken away. Serious disciplinary problems will be referred to the Head Teacher and in extreme circumstances parents will be asked to visit the school for a full report. A copy of the school Behaviour Policy is available from the class teacher or the Head Teacher. Our classrooms are busy and attractive places with the children enjoying learning, working hard and behaving well. We believe in protecting the rights of all pupils to learn and to be safe, and consequently If a child fails to follow the Golden Rules and behaves in a way that affects others, we have a specific procedure to follow. Copies of our complete Behaviour Policy are available from the school and on the website. As a result, we are proud that the school is a community of individuals who take care of each other.



**Gwasanaeth Cynhaliol yr Awdurdod**

Darperir cynhaliaeth arbenigwyr ar gyfer cynorthwyo ysgolion i gyflawni eu dyletswyddau;

- Gwasanaeth Seicolegol i Ysgolion
- Athrawon/Cymorthyddion Ymgynghorol sydd a rôl arbennigol ym meysydd Nam Clyw, Nam Golwg, Meddygol a Chorfforol, Ymddygiadol, Anghenion Dysgu Penodol, Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Sector Cyn-ysgol
- Gwasanaeth Lles Addysg

Mae nyrs ysgol yn ymweld â'r ysgol o dro i dro. Mae'n bosib siarad gyda'r nyrs drwy ffonio 03000853388.



**The LEA'S Support Service**

A support service is provided by the LEA to help schools fulfil their duties:

- Schools' Psychology Service
- Advisory Teachers who have a general as well as a specialist role in the fields of hearing impairment, eyesight impairment, physical impairment, behaviour
- Pre-school sector
- Education Welfare Service.

The school nurse visits the school from time to time. It is possible to talk to the nurse by phoning 03000853388.

## Cyfathrebu rhwng y cartref a’r ysgol

Yn ystod y flwyddyn, mae achlysuron pan wahoddir rhieni i’r ysgol am drafodaeth gydag athro dosbarth eu plentyn ynglŷn â thargedau personol ac amcanion. Mae hi hefyd yn bwysig nodi fod croeso i rieni ymweld â ’r ysgol ar unrhyw amser i drafod addysg a lles eu plant, neu unrhyw broblemau sydd ganddynt. Byddwch yn ymwybodol na allai athrawon adael eu dosbarthiadau yn ystod amser gwersi. Os hoffech siarad â ni, a fyddwch cystal â threfnu gyda ni o flaen llaw. Mae cylchlythyr yn cael ei ddosbarthu i ddiweddaru rhieni am ddigwyddiadau yn yr ysgol yn ogystal â gwefan yr ysgol sy’n cynnwys holl ddyddiadau a digwyddiadau ar gyfer y flwyddyn academaidd. Ein dymuniad yw i fod yn gwbl ddi-bapur felly helpwch ni i gyflawni hyn trwy ein diweddaru gyda’ch manylion cyswllt. Mae adroddiadau ysgrifenedig am gynnydd eich plentyn ar gael bob mis Gorffennaf.

## Communication between home and school

During the course of the year, there are scheduled occasions when parents are invited to school for a discussion with their child’s class teacher about personal targets and goals. It is also important to note that parents are welcome to visit the school at any time to discuss their child’s education and welfare, or any problems they may have. Could you please acknowledge the teacher’s inability to leave their classes during lesson time. If you would like to talk to us, kindly make arrangements with us beforehand. A newsletter is provided to keep parents up to date with events at the school as well as the school website that includes all dates and events for the academic year. Our desire is to be totally paperless therefore please help us achieve this by keeping us up to date with your contact details. Written reports containing information on your child’s progress are available every July.





**Gwisg Ysgol**

Mae gennym wisg ysgol swyddogol. Credwn fod gwisg ysgol yn arwain at feithrin balchder yn yr ysgol ac ymdeimlad o berthyn ac annogwn bawb i'w gwisgo. Gellir prynu siwmperi a chrysau polo o'r ysgol. Neu, gellir gwisgo rhai heb logo'r ysgol o unrhyw siop arall.

Crys polo melyn
Siwmper neu cardigan gwyrdd
Sgert/trowsus/ trowsus cwta ddu neu lwyd
Ffrog haf gwyrdd a gwyn
Esgidiau du, addas i redeg a chwarae

Mae'n hanfodol, rhag cymysgu dillad, fod enwau disgyblion wedi eu nodi yn eglur ar bob dilledyn.

Mae pob disgybl angen esgidiau chwaraeon, trowsus cwtadu a chrys-T gwyn ar gyfer addysg gorfforol, ddwywaith yr wythnos. Am resymau hylendid, ni ddylent wisgo'r dillad hyn i ddod i'r ysgol yn y bore, ond newid iddynt am y wers ac yna newid i'w dillad arferol ar ddiwedd y sesiwn. Os yw'r disgyblion am wisgo clustdlysau, rhaid sicrhau mai rhai 'stud' yn unig fyddant yn eu gwisgo. Disgwyliwn i blob plentyn sydd â gwallt hir, glymu ei wallt neu gwallt yn ôl i ddod i'r ysgol, er diogelwch a glanweithdra.

## School Uniform

The school has an official school uniform. We believe that a school uniform fosters pride in the school as well as a sense of belonging and we encourage everyone to wear it. The uniform can be purchased directly from the school. Pupils may wear plain uniform without the school logo.

Yellow polo shirt
Dark green sweatshirt/ cardigan
Black or grey skirt/ trousers or shorts
Green and white summer dress
Black shoes, suitable for running and playing

To avoid a mix-up with clothes, it is essential that children's names are clearly labelled on each item of clothing.

Every child should have trainers, black shorts and a white T-shirt for physical education. For reasons of hygiene, they should not wear these clothes to come to school in the morning, but should change into them for the lesson and then change back into their usual clothes at the end of the session. If the children wish to wear earrings, please ensure that they only wear the stud type. We expect children with long hair to tie their hair back for reasons of safety and cleanliness.





**Cinio Ysgol**

Mae’r ysgol darparu prydau ysgol danteithiol ac iachus ar gyfer ein disgyblion bob dydd. Mae cinio am ddim i bob disgybl yn yr ysgol.

Mae’n well gan rai disgyblion ddod â’u cinio eu hunain i’r ysgol. Gan ein bod yn rhan o Gynllun Ysgolion Iach Gwynedd ac yn dilyn canllawiau’r Llywodraeth, bwyd a diod iach yn unig a ganiateir yn y bocsus bwyd, dim diod ffisi na fferins. Gweler ein gwefan ysgol am ganllawiau Llywodraeth Cymru. Mae’r holl ddisgyblion yn bwyta’u cinio ar y cyd yn y cantîn rhwng 11:45 a 12:30.

Mae’r bwydlen ar gael ar gwefan Cyngor Gwynedd.



## School Dinners

The school provides tasty and healthy school meals for our pupils every day. School meals are free for pupil in the school.

Some children prefer to bring their own lunch to school. Being part of the Gwynedd Healthy Schools scheme, our wish is to see lunchboxes containing healthy food, and no fizzy drinks or sweets. Welsh Government healthy lunchboxes guidelines are on our school website. All pupils eat their dinners in the canteen between 11:45-12:30.

The menu is available on the Gwynedd Council website.



## Ysgolion Iach

Fel ysgol ein nod yw darparu ein disgyblion gyda gwell ddealltwriaeth o'u hunain gan hyrwyddo agweddau o ddiet, glendid ac ymarfer corff. Mae holl ddisgyblion Meithrin, Derbyn, blwyddyn 1 a 2 â'r hawl i lefrith ysgol am ddim. Anogir disgyblion i ddod â ffrwyth eu hunain i fwyta amser chwarae. Anogir disgyblion i ddod a photel ddŵr gyda nhw i'r ysgol ac yfed dŵr yn gyson drwy gydol y dydd.

## Healthy Schools

As a school we aim to give our pupils a greater understanding of themselves by promoting aspects of diet, hygiene and exercise.

All pupils in Nursery and Reception class, year 1 & 2 are entitled to free school milk. Children are encouraged to bring their own fruit for playtime. Pupils are encouraged to bring a water bottle to school and drink water regularly throughout the day.

## Teithio i'r ysgol

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gerdded neu feicio wrth ddod a'u plant i'r ysgol. Gofynnwn am gydweithrediad pawb er mwyn sicrhau diogelwch y plant. Gofynnwn i chi barcio ar y prom gan ddefnyddio ein tocynnau parcio os ydych yn dod a'ch plant i'r ysgol yn y car.

## Travelling to school

The school encourages parents to walk or cycle when bringing their children to school. We ask for everyone's co-operation in ensuring the children's safety. We ask that you park on the promenade using our parking tickets if you use the car to bring your child/ children to school.

## Byw'n Iach

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau diweddaraf y Llywodraeth ynglyn â 'Byw'n Iach'. Cewch fwy o wybodaeth ym mholisi llawn yr ysgol neu wefan yr ysgol.



## Healthy Living

The school follows the government's most recent guidelines on healthy living. More details are given in our school policy and can be seen on our school website.

**Iechyd a Diogelwch**

Mae diogelwch y disgyblion, y staff ac ymwelwyr yn cael blaenoriaeth gennym. Mae’r llywodraethwyr yn sicrhau diogelwch yr adeilad ac eiddo’r ysgol. Mae gennym nifer o bolisiau manwl sydd yn cael eu dilyn yn ofalus, a dilynwn ganllawiau Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Mae asesiadau o risg yn cael eu paratoi i sicrhau fod gweithgareddau’r ysgol mor ddiogel â phosibl. Mae Panel Adeiladau’r Llywodraethwyr a Swyddogion Adeiladau’r Cyngor yn cynnal arolwg rheolaidd o’r adeiladau o ran cyflwr a diogelwch. Cynhelir dril tân yn dymhorol. Mae gennym system i ganiatâu mynediad i ymwelwyr i’r ysgol a pholisi goruchwylio sydd yn cyd-fynd â’r gofynion.

**Damweiniau a Meddyginiaeth**

Gofalir am unrhyw ddisgybl sy’n mynd yn sâl yn yr ysgol neu’n cael damwain, a’i gysuro. Os bydd ein cymorthyddion cyntaf yn ei ystyried yn angenrheidiol, byddwn yn cysylltu â chi ac yn gofyn i chi ddod i gasglu eich disgybl. Am y rheswm hwn, mae’n hanfodol bod yr ysgol yn cael gwybod pe bai eich manylion cyswllt yn newid neu fod unrhyw anghenion meddygol penodol gan eich disgybl. Cedwir cofnodion damweiniau ar ffeil, ac anfonir slip damwain adref i esbonio’r hyn sydd wedi digwydd. Mewn achos brys lle na ellir dod i gysylltiad â rhiant bydd y Pennaeth yn gweithredu'n ôl y galw. Mae aelodau o staff yr ysgol wedi derbyn yr hyfforddiant Cymoth Cyntaf priodol. Pe bai ar eich disgybl angen moddion yn ystod y diwrnod ysgol cysylltwch ag aelod o staff. Ni all athrawon roi ffisig/tabledi i unrhyw ddisgybl heb fod y ffurflenni angenrheidiol wedi eu llenwi.

## Health and Safety

The school's priority is the safety of its pupils, staff and visitors. The governors ensure the safety of the school building and property. We have a number of detailed policies concerning this and we follow Gwynedd Council and Welsh Government guidelines. Risk assessments are completed to ensure that the school's activities are as safe as possible. The governors' Premises Panel and Council's Buildings Officers conduct a regular inspection of the buildings in terms of condition and safety. A fire drill is held every term. We have a system to allow visitors access to school and a policy of supervision which complies with the requirements. The children's safety gets priority.

## Accidents and Medication

Any child who is taken ill or who suffers an accident at school will be taken care of and comforted. If our first aiders deem it necessary, we will contact you and ask you to collect your child. For this reason, it is essential that the school is kept informed of any changes to your contact details and of any specific medical needs your child has. Records of accidents are kept on file, and an accident slip sent to the home to explain what has happened. In emergencies, where a parent cannot be contacted, the Headteacher will take the appropriate action. Members of school staff have received appropriate First Aid training. Should your child require medication during the school day, please contact the Headteacher. Teachers cannot administer medicine/tablets to any child unless the necessary forms have been completed.

**Paratoi ar gyfer yr ysgol**

Rydym yn awyddus i sicrhau hapusrwydd eich plentyn yn ystod eu cyfnod yn Ysgol y Traeth. Credwn fod amgylchedd hapus a meithringar yn caniatáu i blant ddatblygu i'w llawn botensial. Dyma ychydig o arweiniad wrth baratoi ar gyfer yr ysgol:

Gall fod yn fuddiol i'r plentyn drafod ymweliadau a dylai rhieni sgwrsio gyda nhw'n gyson.

Gwylio a thrafod rhaglenni teledu gyda'ch gilydd – efallai gwylio rhaglenni Cyw ar S4C

Darllen gyda'r plant bob diwrnod a chwarae gyda nhw gan drafod gweithgareddau bob dydd

Cynyddu ymwybyddiaeth plant o rifau oherwydd gall hyn ehangu'r addysgu

Gwneud defnydd o grwpiau Meithrin lleol fel y gallwch baratoi eich plentyn yn gymdeithasol ac ieithyddol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Helpu eich plant gyda thasgau megis gwisgo, clymu carrai esgidiau, mynd i'r tŷ bach, defnyddio cyllell a fforc a chlirio

Datblygu unrhyw weithgareddau sy'n annog sgwrs a hunanhyder

Dewch i'n gweld! Mae plant yn mwynhau gweld plant eraill mewn amgylcheddau hapus.

Gwybodaeth y bydd arnom ei angen:

Ffurflen gwybodaeth cyswllt—Ni fyddwn yn derbyn plant i'r ysgol heb wybod sut i gysylltu â chi os bydd argyfwng

Ffurflen ymwybyddiaeth gyfryngol– Bydd angen eich caniatad i gynnwys llun neu fideo o'ch plentyn mewn amrywiaeth o gyfryngau

Ffurflen ganiatad trafnidiaeth neu ymweliad—Rhaid cael eich caniatad er mwyn cynnwys eich plentyn ar drip neu ymweliad

Ffurflen meddygol- Rhaid cael gwybodaeth meddygol am bob disgybl

## Preparing for school

We are eager to ensure your child’s happiness whilst at Ysgol y Traeth. We believe that a happy and nurturing environment allows a child to develop to their full potential.

Here are some guidance when preparing for school:

It may be helpful for the child to discuss visits and parents should converse with them regularly

Watch and discuss television programmes together – perhaps watching Cyw cartoons on S4C

Read to the children every day and to play with them discussing every day with activities

Increase children’s awareness of numbers as this can enhance teaching

Make use of your local Nursery group so that you can prepare your child socially and linguistically for Welsh medium education

Help your child with tasks such as independently dressing, tying shoe laces, going to the toilet, the use of knife and fork and tidying up

Develop any activities which encourage conversation and self-confidence

Come and visit us! Children enjoy seeing other children in happy environments.

Information we will need:

Contact information form– We will not admit pupils into the school unless we know how to contact you in an emergency

Media awareness form– We need your permission to include your child’s photograph or video in any activity

Transport and school visit form– We need your consent to include your child in any visit or school trip

Medical form- We need all medical information regarding our pupils

# Sut gallaf helpu i hybu addysg fy mhlentyn?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Meithrin** | Dysgu lliwiau<br>Cyfri i 10<br>Lliwio yn daclus<br>Adnabod rhai llythrennau a rhifau<br>Gafael mewn pensel yn gywir<br>Gwneud lluniau<br>Sgwrsio am ddigwyddiadau'r dydd<br>Darllen iddynt yn rheolaidd<br>Canu caneuon<br>Gwylio rhaglenni Cymraeg e.e. Cyw | **Blwyddyn 3 a 4** | Gwybod tablau 2,3,4,5, 6 a 10 o leiaf<br>Dweud yr amser ar gloc analog<br>Ysgrifennu ffurfiau Cymraeg a Saesneg; e.e llythyr, stori dyddiadur ...<br>Trafod a sgwrsio gan fynegi barn yn synhwyrol yn y ddwy iaith.<br>Ymarfer darllen a thrafod yn rheolaidd. |
| **Dosbarth Derbyn** | Adnabod llythrennau a rhifau<br>Cyfrif hyd at 20<br>Cyfri fesul 10<br>Ffurfio llythrennau a rhifau yn gywir<br>Ysgrifennu geiriau a brawdegau syml<br>Dysgu dyddiau'r wythnos<br>Darllen geiriau syml a llyfrau iddynt yn rheolaidd<br>Bwyta hefo cyllell a fforc<br>Gwylio rhaglenni Cymraeg e.e. Cyw | **Blwyddyn 5 a 6** | Gwybod tablau i gyd at 10 x 10 erbyn tymor cyntaf Blwyddyn 5<br>Ysgrifennu ffurfiau Cymraeg a Saesneg, e.e storiau, llythyr, erthygl heb fawr o gamgymeriadau sillafu, ac yn cynnwys paragraffau<br>Trafod a sgwrsio yn hyderus yn y ddwy iaith gan ddefnyddio iaith gywir, geirfa dda gan fynegi barn a safbwynt yn glir.<br>Ymarfer darllen testunau estynedig a thrafod yn rheolaidd |
| **Blwyddyn 1 a 2** | Gwybod tablau 2,3,5 a 10<br>Adio a thynnu yn eu pen hyd at 20<br>Cyfrif hyd at 100<br>Dweud yr amser (ar yr awr,hanner awr wedi a chwarter wedi ac i)<br>Ymarfer darllen yn rheolaidd<br>Ysgrifennu brawddegau<br>Sgwrsio yn y Gymraeg a'r Saesneg | | |

## How can I help promote my child's education?

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Nursery** | Learn colours<br>Count to 10<br>Correctly hold a pencil<br>Make pictures<br>Colour-in neatly<br>Chat about the day's events<br>Recognise some letters and numbers<br>Regularly read to them<br>Watch Welsh TV programmes, such as Cyw | **Years 3 and 4** | Know the 2, 3, 4, 5, 6 and 10 times tables at least<br>Tell the time on an analogue clock<br>Write Welsh and English - letters, stories<br>Discuss and chat, expressing a view sensibly in both languages<br>Practise reading and discussing on a regular basis<br>Revise spelling patterns regularly |
| **Reception Class** | Recognise letters and numbers<br>Write letters and numbers<br>Read simple words, and books<br>Write simple words and sentences<br>Correctly form letters and numbers<br>Count to 20<br>Count in tens<br>Learn the days of the week<br>Regularly read to them<br>Watch Welsh TV programmes, such as Cyw | **Years 5 and 6** | Know all the times tables up to 10x10<br>Write Welsh and English forms- stories, letters<br>Revise spelling patterns<br>Discuss and chat confidently in both languages using correct language and a good vocabulary<br>Express opinions and viewpoints clearly<br>Practise reading and discussing extended texts on a regular basis |
| **Years 1 and 2** | Know the 2, 3, 5 and 10 times tables<br>Add and subtract mentally up to 20<br>Count up to 100 and beyond<br>Tell the time (on the hour, half past, quarter past and quarter to)<br>Chat in Welsh and in English<br>Practise reading on a regular basis<br>Write sentences<br>Learn the months of the year<br>Learn the days of the week<br>Watch Welsh TV programmes, such as Cyw | | |

## Codi Tâl am weithgareddau

Mae Llywodraethwyr yr ysgol yn adnabod cyfraniad gwerthfawr mae ystod eang o weithgareddau ychwanegol, yn cynnwys ymweliadau tu allan i'r ysgol yn ei gael tuag at addysg disgybl. Gwneir cais am gyfraniadau gwirfoddol er mwyn cyllido ymweliadau addysgol fel y dynodir ym Mholisi Talu a Chostau. Fodd bynnag, os nad oes digon o arian wedi ei gasglu ar gyfer ymweliad ysgol, gallai hynny arwain at ohirio'r daith. Mae'r ysgol bob amser yn barod i drafod os yw rhiant yn bryderus am gostau yn ymwneud â'r ysgol.

## Charging Payment for activities

The school Governors recognise the valuable contribution that a wide range of additional activities, including out of school visits can make towards pupil's education. A request is made for voluntary contributions to cover costs for educational visits as stated in the school's Pay and Charging policy. However, should there be insufficient funds collected for a school visit, cancellation of the trip may follow. The school is always ready to discuss when a parent/ guardian is worried about costs relating to the school.

## Cyfeillion Ysgol y Traeth

Mae'r ysgol yn annog rhieni i gymryd rhan weithgar yn y CRhA. Cynhelir y cyfarfodydd yn ffreuty'r ysgol gan drefnu'r rhaglen o weithgareddau yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyfeillion yn defnyddio eu tudalen 'Facebook' i gysylltu â rhieni yn ogystal â llythyrau trwy'r ysgol.

## Ysgol y Traeth Friends of the School

The school encourages parents to take an active role in the PTA. The meetings are held in the school canteen, where the programme of activities are organised during year. The Friends of the School use their Facebook Page to communicate with parents as well as letters through the school.



## Gwersi Offerynnol

Mae cyfle i ddisgyblion o Flwyddyn 3 ymlaen gael gwersi offerynnol. Yn anffodus, rhaid codi ffî am y gwersi. Trefnir hyn yn Nhymor yr Haf wrth gynllunio ymlaen at fis Medi. Rhaid i rieni arwyddo cytundeb am flwyddyn o wersi gyda Gwasanaeth Cerdd, Galeri, Caernarfon.

## Instrumental Lessons

Pupils from Year 3 on have an opportunity to receive instrumental lessons. Unfortunately, we have to charge a fee for the lessons. This is arranged in the Summer Term, planning ahead for the following September. Parents must sign a contract for one year of lessons with Gwasanaeth Cerdd, Galeri, Caernarfon.

# Cwricwlwm i gymru
# Curriculum for wales

# Y 4 Diben

## 4 Diben Cwricwlwm i Gymru ydy craidd a chalon Cwricwlwm Ysgol y Traeth.

Mae nhw'n sail i bob agwedd o'n dylunio cwricwlwm, ein cynllunio a'n addysgu. Mae ein gweledigaeth a'n gwerthoedd fel ysgol yn cefnogi'r 4 diben. Bydd ein profiadau dysgu a'n dulliau addysgu yn anelu at wireddu'r isod bob amser.

| Dysgwyr uchelgeisio, galluog…. sy'n barod i ddysgu gydol eu bywydau, ac sy'n: | Cyfranwyr mentrus, creadigol… sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith, ac sy'n: | Dinasyddion egwyddorol, gwybodus…sy'n barod i fod yn ddinasyddion yng Nghymru a'r byd, ac sy'n: | Unigolion iach, hyderus…sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, ac sy'n datblygu: |
|---|---|---|---|
| ● gosod safonau uchel iddyn nhw eu hunain<br>● mwynhau her a datrys problemau<br>● datblygu gwybodaeth a sgiliau a'u cymhwyso mewn gwahanol gyd-destunau<br>● gallu trafod eu dysgu yn hyderus<br>● gallu cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg, gallu defnyddio mathemateg a rhif a thechnolegau digidol yn effeithiol | ● meddwl yn greadigol<br>● cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u sgiliau i greu, i addasu ac i ddatrys problemau<br>● adnabod cyfleoedd a manteisio arnynt<br>● hyderus i fentro<br>● arwain a chydweithio mewn timau<br>● mynegi eu syniadau a'u hemosiynau mewn gwahanol ffyrdd<br>● defnyddio eu hegni a'u sgiliau er budd eraill | ● ffurfio barn a thrafod materion ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd<br>● deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol<br>● deall ac yn ystyried effaith eu gweithredoedd<br>● gwybod am eu diwylliant a'u cymuned<br>● gwybod am gymdeithas a'r byd presennol<br>● parchu anghenion a hawliau pobl eraill fel aelod o gymdeithas amrywiol<br>● gweld bod ganddynt rôl i'w chwarae i sicrhau cynaladwyedd y blaned | ● iechyd a diogelwch corfforol a meddyliol<br>● cydberthnasau yn seiliedig r barch ac ymddiriedaeth<br>● gwerthoedd personol<br>● sgiliau ac annibyniaeth i ddelio gyda bywyd bob dydd<br>● y gallu i wynebu a goresgyn heriau |

The 4 Purposes

The 4 purposes of Curriculum for Wales are at the heart of Ysgol y Traeth's curriculum.

They underpin all aspects of our curriculum design, planning and teaching. Our vision and values as a school support the 4 purposes. Our learning experiences and teaching methods will always aim to make the following a reality.

| Ambitious, capable learners…. Who are ready to learn throughout their lives, and who: | Enterprising, creative contributors…. Who are ready to play a full role in life and work, and who:: | Principled, informed citizens…. Who are ready to be citizens in Wales and the world, and who: | Healthy, confident individuals…. Who are ready to live a full life as valued members of society, and who develop: |
|---|---|---|---|
| • Set high standards for themselves<br>• Enjoy a challenge and solve problems<br>• Develop knowledge and skills and apply them in different contexts<br>• Are able to discuss their learning confidently<br>• Are able to communicate in Welsh and English<br>• Are able to use mathematics, number and digital technologies effectively | • Think creatively<br>• Connect and apply their knowledge and skills to create, adapt and solve problems<br>• Identify opportunities and take advantage of them<br>• Are confident to take risks<br>• Take the lead and collaborate in teams<br>• Express their ideas and emotions in different ways<br>• Use their energy and their skills through the benefit of others | • Form an opinion and discuss issues based on their knowledge and values<br>• Understand and exercise their responsibilities and human rights<br>• Understand and consider the impact of their actions<br>• Know about their culture and community<br>• Know about their society and the world today and in the past<br>• Respect the needs and rights of other people as a member of a diverse society<br>• See that they have a role to play in ensuring the sustainability of the planet | • Physical and mental health and safety<br>• Relationships based on respect and trust<br>• Personal values<br>• Skills and independence to deal with everyday life<br>• The ability to face and overcome challenges |

# IAITH, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

Yn Ysgol y Traeth rydym eisiau i bob disgybl allu cyfathrebu'n effeithiol ac yn hyderus. Manteisir ar gyfleoedd i ddatblygu iaith ym mhob sefyllfa bosibl, gan alluogi disgyblion i weld y cwswllt bwriadol, dilys sydd gan ieithoedd i sefyllfaoedd bywyd go iawn.

| **Beth sy'n bwysig:** | |
|---|---|
| **Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd** | **Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch** |
| **Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu** | **Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd** |

Cymraeg yw iaith dydd i ddydd yr ysgol.
Rydym yn ymgorffori egwyddorion y Siarter Iaith i'r cwricwlwm cyflawn ac ym mhob agwedd o'r gwaith. Addysgir yn gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg hyd at 7 oed. Cyflwynir Saesneg yn raddol i ddysgwyr yn unol â'u parodrwydd at hynny o 7 oed ymlaen. Addysgir 50-70% yn y Gymraeg o 8-11 oed, yn ddibynnol ar anghenion blynyddoedd penodol. Ein nod yw sicrhau bod pob dysgwr yn hyderus ddwyieithog yn gadael yr ysgol.

Mae pob plentyn ar ei daith ddysgu ei hun. Rydym yn annog ac yn cefnogi pob plentyn i gyrraedd ei llawn potensial fel ddarllenwyr, ysgrifenwyr, siaradwyr a dysgwyr. Yn Ysgol y Traeth, mae gennym ystod eang o strategaethau i gefnogi ein dysgwyr, megis rhaglen Tric a Chlic, Dyfal Donc, Darllen Co, grwpiau targed a grwpiau ymyrraeth dyddiol trwy ein darpariaeth gyffredinol. Darperir her bellach trwy osod tasgau gwahaniaethol o fewn y dosbarth. Yn ogystal, rydym yn defnyddio asiantaethau allanol i gael cwricwlwm cwbl gynhwysol.

# LANGUAGE, LITERACY AND COMMUNICATION

At Ysgol y Traeth our aim is for all pupils to be able to communicate effectively and confidently. High standards of languages, literacy and communication are embedded in our curriculum; and opportunities are taken to develop language in every possible situation, enabling pupils to see the intentional, authentic link that languages have to real life situations.

| What matters: | |
|---|---|
| **Languages connect us** | **Understanding languages is key to understanding the world around us** |
| **Expressing ourselves through languages is key to communication** | **Literature fires imagination and inspires creativity** |

Welsh is the day-to-day language of the school.
We incorporate the principles of the Language Charter into the complete curriculum and in every aspect of our work. We teach entirely through the medium of Welsh up to the age of 7. English is gradually introduced to learners according to their readiness from the age of 7 onwards. 50-70% of our lessons are taught in Welsh from ages 8-11, depending on the needs of specific years. Our aim is to ensure that all learners are confidently bilingual when they leave school.

Each pupil is on their own learning journey. We encourage and support all children to reach their full potential as readers, writers, speakers and learners. At Ysgol y Traeth, we have a wide range of strategies to support our pupils such as Tric a Chlic, Catch-Up Literacy, Reading Eggs, target groups and daily intervention groups through our general provision. Further challenge is provided by setting differentiated tasks within the class. In addition, we use external agencies to have a fully inclusive curriculum.

# MATHEMATEG A RHIFEDD

Yn Ysgol y Traeth rydym yn meithrin agweddau cadarhaol, diddordeb, cyffro a darganfyddiad trwy addysgu a dysgu mathemateg. Rydym yn annog agwedd 'gallu gwneud' yn enwedig wrth ddatrys problemau. Rydym yn darparu cysylltiadau â'r byd go iawn a thasgau dilys. Mae'n bwysig i ni fod pob dysgwr yn defnyddio iaith mathemateg yn hyderus drwy rhesymu ac esbonio i eraill.

**Beth sy'n bwysig:**

| | |
|---|---|
| **Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau.** | **Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol.** |
| **Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol.** | **Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus** |

Y 5 Hyfedredd mewn Mathemateg

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Rhoi cyfleoedd i ddangos dealltwriaeth gysyniadol drwy….esbonio a mynegi cysyniadau | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr gyfathrebu â symbolau trwy….dangos dealltwriaeth o gonfensiynau symbolau | Rhowch gyfle i'r dysgwyr ddangos cymhwysedd strategol trwy….adnabod y fathemateg sydd ei hangen i ddatrys problem | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos rhuglder trwy….adalw cyflym o ffeithiau, perthnasoedd a thechnegau | Rhoi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos ymresymu rhesymegol trwy….ddeall perthnasoedd rhwng ac o fewn cysyniadau |

# MATHEMATICS AND NUMERACY

At Ysgol y Traeth, we foster positive attitudes, interest, excitement and discovery through teaching and learning mathematics. We encourage a 'can do' attitude especially when solving problems. We provide links to the real world and authentic tasks. It is important to us that all children use the language of mathematics confidently by reasoning and explaining to others. They will deepen their learning by using concrete, pictorial and abstract representations; giving them a balance of procedural fluency and conceptual understanding.

| **What matters:** | |
|---|---|
| **The number system is used to represent and compare the relationships between numbers and quantities** | **Algebra uses symbol systems to express the structure of mathematical relationships** |
| **Geometry focuses on relationships involving shape, space and position, and measurement focuses on quantifying phenomena in the physical world** | **Statistics represent data, probability models chance, and both support informed conclusions and decisions.** |

| The 5 proficiencies in Mathematics | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Giving learners opportunities to demonstrate conceptual understanding through being able to explain and express concepts | Giving learners opportunities to communicate with symbols by showing an understanding of the conventions of symbol | Giving learners the opportunity to demonstrate strategic competence by recognising the mathematics needed to solve a problem | Giving learners opportunities to demonstrate fluency through rapid retrieval of facts, relationships and techniques | Giving learners opportunities to demonstrate logical reasoning by understanding relationships between and within concepts |

# IECHYD A LLES

Yn Ysgol y Traeth rydym yn ymdrechu'n barhaus i ddarparu amgylchedd dysgu diogel, gofalgar, cynhwysol, anogol, sy'n dathlu ac yn cofleidio amrywiaeth. Gwelwn bob plentyn fel unigolyn arbennig, cyfan sydd â'i roddion unigryw ei hun. Ein braint yw meithrin y rhoddion hyn a bod yn rhan o'u taith i'w helpu i ddod yn unigolion hyderus, iach a ll fod yn aelod gwerthfawr o gymdeithas. Ymfalchiwn wrth gefnogi ein disgyblion i ddatblygu a chynnal nid yn unig eu hiechyd corfforol a'u lles, ond hefyd ei hiechyd meddwl a'u lles emosiynol, yn ogystal â datblygu perthnasoedd cadarnhaol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Er mwyn galluogi hyn, byddwn yn meithrin gallu disgyblion i wneud penderfyniadau gwybodus am eu hiechyd a'u lles a hefyd i ymgysylltu'n feirniadol ag ystod o ddylanwadau cymdeithasol a allai effeithio ar eu gwerthoedd a'u hymddygiad. Dathlwn chwilfrydedd ein dusgyblion a'u hannog i wneud synnwyr o'r byd drwy feddwl am eu teimladau a'u profiadau.

| **Beth sy'n bwysig:** | |
|---|---|
| **Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes.** | **Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol.** |
| **Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.** | **Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles.** |
| **Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles** | |

# HEALTH AND WELLBEING

At Ysgol y Traeth we continually strive to provide a safe, caring, inclusive, nurturing learning environment that celebrities and embraces diversity. We see each child as a special, whole individual with their own unique gifts. It is our privilege to nurture these gifts and be a part of their journey to help them become healthy confident individuals who can be a valuable member of society. We pride ourselves on supporting our pupils to develop and maintain not only their physical health and well-being, but also their mental health and emotional well-being, as well as developing positive relationships in a variety of contexts. In order to enable this, we will foster pupils ability to make informed decisions about their health and well-being and also to critically engage with a range of social influences that could affect their values and behaviour. We celebrate our pupils curiosity and encourage them to make sense of the world by thinking about their feelings and experiences.

| What matters: | |
|---|---|
| Developing the health and well-being of the body leads to lifelong benefits | The way we process our experiences and respond to them affects our mental health and emotional well-being |
| The way we make decisions affects the quality of our lives and the lives of others | The way we relate to social influences shapes who we are and affects our health and well-being |
| Healthy relationships are essential for our well-being | |

# CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL

Yn Ysgol y Traeth rydym am i'n disgyblion ddod yn feddylwyr creadigol. I ddathlu ein cymuned amrywiol rydym yn archwilio sut gall gwaith creadigol gynrychioli hunaniaeth bersonol, cymdeithasol a diwylliannol. Er mwyn galluogi plant i fynegi eu creadigrwydd eu hunain, rydym yn sicrhau bod cyfleoedd i archwilio ac arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau. Rydym am i'n disgyblion fod yn unigolion ysbrydoledig a hyderus, sy'n gallu llunio ehangder eu gwybodaeth a'u sgiliau i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol, galluog. Trwy ein pynciau amrywiol, bydd disgyblion yn perfformio, cynhyrchu, dylunio a rhannu eu gwaith creadigol. Bydd hyn yn cael ei ysbrydoli gan ystod o ysgogiadau a phrofiadau.

| **Beth sy'n bwysig:** | |
|---|---|
| **Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol.** | **Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol.** |
| **Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg.** | |

| **Y 5 Disgyblaeth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cerddoriaeth** | **Drama** | **Ffilm a'r cyfryngau** | **Dawns** | **Celf** |
| Mae cerddoriaeth yn cynnwys perfformio, byrfyfyrio a chyfansoddi, gwrando a gwerthuso | Mae drama yn cynnwys actio, cyfarwyddo, dylunio, theatr dechnegol a gweinyddu'r celfyddydau | Mae ffilm a'r cyfryngau digidol yn cynnwys teledu, ffilm, radio, dylunio gemau, ffotograffiaeth, digwyddiadau byw a sgiliau cynhyrchu theatrig, cyfryngau print, cyfryngau cymdeithasol, cynhyrchu sain ac awdio | Mae dawns yn cynnwys perfformio, coreograffi a gwerthfawrogiad ar draws ystod o arddulliau. | Mae celf yn cynnwys arbrofi gyda a datblygu ystod ddiddiwedd bron o adnoddau, deunyddiau, technegau a phrosesau ar draws pob math o gelf, crefft a dylunio i gynhyrchu ystod o ganlyniadau ac i arddangos ymateb creadigol a phersonol. |

# EXPRESSIVE ARTS

At Ysgol y Traeth we aim for our pupils to become creative thinkers. To celebrate our diverse community we explore how creative work can represent personal, social and cultural identity. In order to enable pupils to express their own creativity, we ensure that there are opportunities to explore and experiment with a variety of techniques. We want our pupils to be be inspired and confident individuals, who can shape the breadth of their knowledge and skills to be ambitious, capable learners. Through our various subjects, pupils perform, produce, design and share their creative work. This will be inspired by a range of stimuli and experiences.

| What matters: | |
|---|---|
| Exploring the expressive arts is essential in order to deepen artistic skills and knowledge, and it enables learners to become curious and creative individuals | Responding and reflecting as an artist and as an audience is an essential part of learning in the expressive arts |
| Creating combines skills and knowledge, drawing on the senses, inspiration and imagination | |

**The 5 Disciplines**

| Music | Drama | Film and digital media | Dance | Art |
|---|---|---|---|---|
| Music includes performing, improvising and composing, listening and evaluating | Acting, directing, design, technical theatre and arts administration | Television, film, radio, game design, photography, live events and theatre production skills, print media, sound production and audio | Performance, choreography and appreciation across a range of styles | Experimenting with and developing an almost endless range of resources, materials, techniques and processes across all forms of art, craft and design to produce a range of outcomes and to demonstrate a personal and creative response |

# DYNIAETHAU

Yn Ysgol y Traeth, rydym yn dysgu trwy ymholi, archwilio ac ymchwilio i ysbrydoli chwildrydedd yn enwedig am ein ardal leol, Cymru a'r byd ehangach, y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Rydym yn cydnabod bod digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth, rydym yn ceisio sicrhau caiff eu deall, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanoll ffyrdd. Rydym yn archwilio sut mae ein byd naturiol yn amrywio a'i ddeinameg ac hefyd sut maent wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. Rydym yn darparu profiadau uniongyrchol trwy deithiau a phrofiadau hy. Cestyll lleol, Canolfan yr Urdd Caerdydd, Antur Fach yr Urdd. Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, maent yn cael eu siapio gan weithredoedd a chredoau dynol. Mae ymchwilio, parchu, dathlu a chroesawu gwahanol ddiwylliant a ffydd yn rhan sylfaenol o ethos ein hysgol.

| **Beth sy'n bwysig:** | |
|---|---|
| Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol | Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd |
| Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol | Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl |
| Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol | |

| Y 5 Disgyblaeth | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crefydd, gwerthoedd a moeseg | Hanes | Daearyddiaeth | Astudiaethau cymdeithasol | Astudiaethau busnes |

# HUMANITIES

At Ysgol y Traeth, we learn through inquiry, exploration and research to inspire curiosity about Barmouth, Wales and the wider world, the past, present and future. We recognise that human events and experiences are complex, and are perceived, interpreted and represented in different ways. We explore how our natural world is diverse and dynamic, influenced by human processes and actions. We provide direct experiences through visits and experiences ie local castles, Urdd Centre Cardiff. Human societies are complex and diverse, and are shaped by human actions and beliefs. Investigating, respecting, celebrating and welcoming different cultures and faiths is a fundamental part of our school's ethos.

| **What matters:** | |
|---|---|
| Inquiry, exploration and investigation inspire curiosity about the world, its past, present and future | Human events and experiences are complex and are understood, interpreted and represented in different ways |
| Our natural world is diverse and dynamic, influenced by human processes and actions | Human societies are complex and diverse, and they are shaped by people's actions and beliefs |
| Informed, self-aware citizens address the challenges and opportunities facing humanity, and are able to take meaningful and principled action. | |

| The 5 Disciplines | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Religions, values and ethics | History | Geography | Social Studies | Business Studies |

# GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

Yn Ysgol y Traeth, rydym am i Wyddoniaeth a Thechnoleg danio chwilfrydedd, syndod a rhyfeddod o fewn ein disgyblion. Mae ein cwricwlwm yn datblygu sgiliau ymholi gwyddonol disgyblion. Trwy gyd-destunau pwrpasol a bywyd go iawn, mae ein disgyblion yn gofyn cwestiynau, yn rhagfynegi, yn archwilio, yn cynllunio, yn trafod, yn myfyrio ac yn mwynhau profiadau ymarferol wrth adeiladu corff cryf o wybodaeth.

| **Beth sy'n bwysig:** | |
|---|---|
| **Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau** | **Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas** |
| **Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi** | **Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau** |
| **Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd** | **Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol** |

Rydym yn cynllunio cyfleoedd i blant archwilio, cymryd risgiau a gwneud camgymeriadau sy'n ymestyn eu dysgu a deall bod Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn rhan annatod o fywyd bob dydd.
Rydym am i'n disgyblion fod yn angerddol am ddeall y byd o'u cwmpas, pam ei fod, pa mor gyd gysylltiedig yw ein byd a sut y gallent gael effaith.

# SCIENCE AND TECHNOLOGY

At Ysgol y Traeth, we science and technology to spark curiosity, surprise and wonder within our pupils. Through purposeful contexts and real life, our pupils ask questions, predict, explore, plan, discuss, reflect and enjoy practical experiences while building a strong body of knowledge.

| What matters: | |
|---|---|
| Being curious and looking for answers is essential to understanding and predicting phenomena | Design and engineering thinking offers technical and creative ways to meet society's needs and wants |
| The world around us is full of living things that depend on each other to survive | Matter, and the way it behaves defines our inverse and shapes our lives |
| Forces and energy lay the basis for understanding our universe | Computing underpins our digital world |

We plan opportunities for children to explore, take risks and make mistakes that extend their learning and understand that Science and Technology are an integral part of everyday life.
We want our pupils to be passionate about understanding the world around them, why it is, how interconnected our world is and how they could have an impact.

# ASESU A CHYNNYDD

Mae asesu parhaus (bob dydd ar lawr y dosbarth) yn rhan naturiol a phwysig o waith athrawon. Hyn sydd yn arwain at gynllunio a pharatoi gwaith addas ar gyfer pob disgybl. Yn ogystal â hyn asesir y disgyblion yn ffurfiannol (mwy ffurfiol drwy brofion, tasgau asesu ac ati) ar wahanol gyfnodau o'u hamser gyda ni i sicrhau eu bod yn datblygu fel y disgwylir ac fel ein bod yn gallu mesur eu cynnydd. Defnyddir profion cenedaethol a phrofion ysgol i asesu yn ogystal â'r asesu parhaus.

**Adroddiadau Interim & Adroddiad Diwedd Blwyddyn Addysgol**

Ar ddiwedd bob tymor bydd bob rhiant yn derbyn adroddiad interim ac ar ddiwedd Tymor yr Haf, bydd pob rhiant yn derbyn adroddiad ysgrifenedig ar ddatblygiad eu disgybl, yn cynnwys:

Sylwadau ar ddatblygiad o fewn y Meysydd Dysgu/ Medrau

Sylwadau gan yr athro neu athrawes ar Iechyd a Lles

Sylwadau gan yr athro neu athrawes ddosbarth ar agwedd, ymddygiad a datblygiad cyffredinol

Sylwadau gan y disgybl

Cofnod o bresenoldeb y disgybl yn ystod y flwyddyn

Argymhellion i'r disgybl a'r rhieni

Caiff copi o'r adroddiad ei gadw yn yr ysgol a'i drosglwyddo hefo disgyblion i'w hysgolion nesaf.

**Nosweithiau Rhieni**

Cynhelir nosweithiau rhieni dwy waith y flwyddyn, gan rhoi cyfle i rieni drafod datblygiad eu plant gyda'r athrawes ddosbarth. Ceir Noson Agored i'r rheini ar gychwyn y flwyddyn i gwrdd a'r athrawon dosbarth a cael gweld dosbarthiadau newydd eich plentyn/ plant, hefyd ar ddiwedd y flwyddyn i drafod adroddiadau. Gellir trefnu cyfarfod ychwanegol ar gais yr ysgol neu'r rhiant ar adeg gwahanol i'r nosweithiau rhieni os oes angen.

# ASSESSMENT AND PROGRESS

Continuous assessment (daily in the classroom) has always been a natural and important part of the work of conscientious teachers. This forms the basis of preparing suitable work for your child. Additionally, the children are formally and informally assessed (with tests, assessment tasks and so on) at different periods of their time with us to ensure that they are developing as expected and so as to allow us to measure their progress. National tests and school tests are used to assess as well as the continuous assessment.

**Interim Reports & End of Year Progress Report**

At the end of each term we will provide an interim report with a full progress report being provided at the end of the Summer Term. All parents will receive a written report on their pupil's development, including: Comments on the development of your child within the Learning/Skills Areas

Comments from the class teacher on Health and Wellbeing

Comments from the class teacher on attitude, behaviour and general development

Comments from the pupil

A record of the pupil's attendance during the year

Recommendations for the child and parents

A copy of the report will be retained at the school and will be passed on when the pupil transfers to another school.

**Parents' Evenings**

Parents' evenings are held twice a year. These give parents the opportunity to discuss their children's development with the class teacher. Open evenings are at the beginning of the academic year, for parents to meet the teachers and to have a look around the classes, and one at the end of the year to discuss the school reports. Additional meetings may be arranged at the request of the school or parent at a different time to the parents' evenings if required.